


Ffedarasiwn Cwrt Henri, Ffairfach a Talylychau

Pennaeth / Headteacher - Mr Gethin Richards MA, BSc

richardsg75@hwbcymru.net

Penaethiaid Cynorthwyol / Assistant Headteacher
Mrs A Vaughan-Owen / Mrs A Morgan / Miss A Walker

01558 668588 / 01558 822796 / 01558 685356



Polisi e-ddiogelwch e-safety Policy

Polisi e-ddiogelwch (yn dilyn canllawiau Sir Gaerfyrddin)

Cyfrifoldeb Staff yr ysgol

Mae technolegau gwybodaeth yn datblygu ar ras, a gall hynny beri i staff fod yn ansicr ynghylch yr arfer gorau neu sut i drafod materion e-ddiogelwch gyda disgyblion. Gellir cael cyngor a hyfforddiant gan y Gwasanaeth Gwella Ysgolion neu gan Ymgynghorwyr TG Ysgolion Sir Gaerfyrddin.

Mae ennyn ymddiriedaeth rhwng disgyblion a staff yr ysgol yn hanfodol i addysg y plant, ond o bryd i'w gilydd gall disgyblion deimlo'n anghyffyrddus i drafod rhai materion gyda staff. Nid peth newydd yw hyn, ond mae wedi dod i'r amlwg drwy well ymwybyddiaeth o ffaeledau dyn a mwy o barch tuag at blant. Yn genedlaethol mae'r Swyddfa Gartref wedi sefydlu Canolfan Cam-fanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein (CEOP) i "ddiogelu profiadau plant ar-lein a mynd ati yn ddiwyro i ddod o hyd i droseddwr a'u dwyn o flaen eu gwell".

Mewn diwydiant, ac yn wir yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, mae aelod o staff sy'n mynd yn groes i gyngor ar ddiogelwch neu'n defnyddio'r e-bost neu'r Rhyngwrwyd at ddibenion amhriodol, yn agored i gael ei ddisgyblu.

Dylai pob aelod o staff lofnodi Cytundeb Defnydd Derbyniol ar eu penodi. Drwy lofnodi'r cytundeb hwn, mae staff yn derbyn y gall yr ysgol fonitro'r defnydd a wneir o'r rhywdwaith a'r Rhyngwrwyd i helpu i sicrhau diogelwch y staff a'r disgyblion.

Mae staff sy'n rheoli'r systemau hidlo neu'n monitro'r defnydd a wneir o TGCh yn ysgwyddo cryn gyfrifoldeb, a rhaid eu goruchwyllo'n briodol. Rhaid i'r gweithdrefnau ddiffinio sut i ddwyn defnydd amhriodol neu ddefnydd anghyfreithlon o'r TGCh i sylw'r uwch reolwyr. Rhaid i'r staff fod yn ymwybodol o'r peryglon iddynt hwy eu hunain wrth reoli'r defnydd a wneir o TGCh, megis wrth edrych ar ddelweddau amhriodol i ymchwilio i'w tarddiad, a sicrhau bod mesurau diogelwch priodol yn eu lle i ddiogelu eu hunain.

Rhaid dwyn unrhyw honiad o ymddygiad amhriodol i sylw'r uwch reolwyr ac ymchwilio i'r achos yn ofalus iawn - fe all fod esboniad cwbl ddiniwed i'r ymddygiad dan sylw.

Mae'r e-bost, anfon negeseuon testun a negeseua sydyn, i gyd yn sianeli ychwanegol o gyfathrebu rhwng staff a disgyblion, a gall ymddygiad amhriodol ddiogwydd, neu gall y cyfathrebu gael ei gamddechongli. Bydd staff o bosibl yn defnyddio gallu'r dechnoleg i adnabod y sawl a anfonodd negeseuon amhriodol. Mae rhai ysgolion yn darparu ffonau ar gyfer staff a disgyblion i gysylltu â'i gilydd er mwyn diogelu staff rhag cael eu cyhuddo ar gam

Negesueon Pwysig i ddisgyblion Ysgol Gynradd

Perygl go iawn

Er gwaethaf y mesurau diogelwch yn yr ysgolion, mae mynd ar y Rhyngwrwyd heb unrhyw gyfyngiadau bellach yn rhan o fywyd bob dydd llawer iawn o blant. Mae lanlwytho deunydd i'r Wefan yn hawdd yn golygu bod mwy o berygl i blant. Mae tystiolaeth gennym eisoes o'r ysgolion am blant cynradd yn defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn eu cartrefi megis Bebo a Piczo, sy'n caniatáu i blant lunio cyfrif a chreu gwe-dudalen mewn munudau. Nid yw gwybodaeth a roddir gan ddefnyddwyr yn cael ei wirio, a phrin iawn yw'r mesurau diogelwch. Dywedir wrth blant (gan blant yn eu harddegau gan amlaf) am edrych ar eu safleoedd.

Awgrymwn bod disgyblion cynradd yn cael eu rhybuddio rhag y peryglon drwy ddweud wrthynt:

Os yw un o'ch ffrindiau, neu rywun hŷn, yn dweud wrthyich am safle y dylech edrych arno, meddyliwch yn galed. Os yw rhywun yn anfon cyswllt atoch, peidiwch â'i agor oni bai eich bod yn siŵr ei fod yn ddiogel. Os ydych yn pryderu, dywedwch wrth athro neu athrawes neu oedolyn yn eich teulu.

Mae'r cyngor a roddir yn adran **2.3.4** yn gymwys ym mhob achos. Ni ddylai disgyblion lanlwytho lluniau neu fideos ohonynt hwy eu hunain neu ddisgyblion eraill. Rhaid iddynt beidio â chyhoeddi gwybodaeth bersonol megis manylion am leoliad neu fanylion cysylltu. Dylid ystyried cynghori disgyblion i ddefnyddio enw ffug lle mae'n hanfodol iddynt logio ar safleoedd.

Clustnodi grwpiau agored i niwed

Mae nifer fawr o ddisgyblion cynradd yn defnyddio dyfeisiau symudol. Mae mwy a mwy ohonynt yn defnyddio ffonau symudol a ffonau sydd â chyswllt â'r rhyngwrwyd, a hynny o fewn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol. Y rhai sydd fwyaf cyfarwydd â defnyddio TGCh yw'r rhai mwyaf agored i niwed. Y plant sydd â sgiliau cymdeithasol gwael yw'r rhai mwyaf tebygol o fod mewn perygl yn sgîl cyswllt amhriodol ar-lein.

Defnyddio'r Rhyngwrwyd i ategu dysgu

Mae'r defnydd a wneir o'r Rhyngwrwyd yn yr ysgolion cynradd gan fwyaf yn ddiogel, yn ateb y diben ac yn fuddiol i ddysgwyr. Serch hynny, mae elfen o risg bob amser: gall hyd yn oed chwiliad cwbl ddiniwed arwain o bryd i'w gilydd at gysylltiadau i gynnwys ar gyfer oedolion neu luniau treisgar. Gyda'r cynnydd enfawr yn y defnydd o'r Rhyngwrwyd yn yr ysgolion mae'r peryglon hyn yn cynyddu ar eu canfed. Serch hynny, mae nifer o athrawon o'r farn bod y llwyth enfawr o ddeunydd amherthnasol, annealladwy a ddaw i'r fei gan chwiliadau ar y Rhyngwrwyd hyd yn oed yn fwy o broblem.

Y perygl mwyaf i'r disgyblion ifancaf yw dod ar draws deunydd amhriodol yn ddjarwybod. Mae band eang cyflym yn golygu y gall delweddau amhriodol ymddangos mewn eiliad. Gall plant yn ddiniwed ddilyn cyfres o gysylltiadau i gynnwys annymunol. Dylid cytuno ar weithdrefn gyda phob aelod o staff ynglŷn â'r hyn y dylid ei wneud a sut i ymdrin â'r sefyllfa gyda disgyblion. Er enghraifft:

Cau neu leihau'r ddelwedd neu ffenestr yn syth bin. Peidiwch â cheisio llywio i ffwrdd. Os yw'r disgyblion wedi gweld y we-dudalen, siaradwch gyda hwy am yr hyn

sydd wedi digwydd, a cheisiwch dawelu eu meddwl. Yn ddiweddarach, ymchwiliwch i hanes i safle dan sylw ac i'r modd y daeth y disgybl i fod yno.

Oherwydd y peryglon, ein cyngor yw bod disgyblion cynradd yn cael eu goruchwylio drwy'r adeg wrth ddefnyddio'r Rhyngwrld. Dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol bod cyfrifiaduron fel arfer ar-lein drwy'r adeg unwaith y bydd cyfrifiadur wedi'i logio ymlaen. Mae'r ddogfen **Signposts to Safety**, Key Stage 1 + 2 version, Becta (Ebrill 2007) yn ddogfen ddefnyddiol.

Peiriannau Chwilio

Rydym yn cymhell athrawon i feddwl yn ofalus cyn caniatáu i ddisgyblion cynradd ddefnyddio peiriannau chwilio'r Rhyngwrld megis Google. Os defnyddir Google o gwbl, rhaid i chi sicrhau y defnyddir mesurau llym o hidlo. Ewch i www.google.co.uk a chliciwch ar *Preferences*.

Mae peiriant chwilio y BBC yn ddull mwy diogel i blant: <http://search.bbc.co.uk/>

Mae chwilio am ddelweddau yn arbennig o beryglus. Digon posibl nad oes angen i ddisgyblion eu lawrlwytho, cyn belled â bod oedolyn yn lawrlwytho'r delweddau cyn y gwersi a'u storio mewn ffolder a rennir. Fel arall, gall athrawon ddefnyddio llyfrgell clipart Microsoft, sy'n ychwanegu delweddau sydd wedi'u lawrlwytho yn awtomatig i Clipart: <http://office.microsoft.com/clipart/>

Gall offer megis picsearch.com fod yn ddefnyddiol i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â chwilio am ddelweddau.

Mae porwr delweddau wedi'i dagio megis flickr.com yn hwyl i'w ymchwilio. Y perygl yw bod rhai o'r porwyr hyn yn derbyn allwedddeiriau amhriodol. Mae'r rhain yn ddefnyddiol i athrawon, ond ni allwn bellach argymhell bod disgyblion yn eu defnyddio. Rhaid peidio â storio cysylltiadau megis hwn yn y ffolder 'Favorites' sydd ar gael i'r disgyblion.

Ta beth, nid oes angen defnyddio peiriant chwilio di-ffrwyng ar gyfer ymchwil sy'n ymwneud â'r cwricwlwm. Mae **Yhooligans**, er mai safle o'r UDA ydyw, yn cynnig amrywiaeth o safleoedd dewisol sy'n berthnasol i'r cwricwlwm yng Nghymru. Am fanylion, gweler Yhooligans UK: <http://uk.docs.yahoo.com/yhooligans/parents.html>

Mae cyngor heb ei ail ar chwilio diogel yn The Guardian's NetClass: <http://education.guardian.co.uk/netclass> (clicier ar 'I can't find what I want').

Serch hynny, noder nad yw unrhyw beiriant chwilio â hidlwr yn gwbl ddiogel.

Y dudalen gartref mewn nifer o ysgolion Sir Gaerfyrddin yw Amdro. Er nad oes cyfleuster chwilio'r we ar Amdro, mae'n cynnwys cysylltiadau ag amrediad o ddeunydd cwricwlwm a pheiriannau chwilio sy'n ddefnyddiol i'r staff.

Cynllunio'r cwricwlwm

Mae cynllunio da a pharatoi yn anhraethol bwysig er mwyn sicrhau man cychwyn diogel ar gyfer datblygu sgiliau a strategaethau chwilio'r We. Gellir cynllunio tasgau nad oes angen peiriant chwilio'r We ar eu cyfer.

Os mai'r nod yw addysgu sgiliau chwilio, mae BBC Ysgolion yn cynnig amgylchedd diogel. Mae'r blwch chwilio yn cyfyngu'r chwilio i safle ysgolion y BBC yn awtomatig. Nid oes dim i nodi'r amrediad oedran, ond gall disgyblion farnu pa mor ddarllenadwy yw'r deunydd oddi wrth yr enghraifft o godir gan y chwiliad www.bbc.co.uk/schools. Yn bwysicach fyth, gall disgyblion cynradd ddysgu sgiliau megis dewis allweddair i gyfyngu'r chwiliadau, a gwerthuso'r ansawdd a pha mor berthnasol yw'r deunydd. Bydd hyn yn eu paratoi ar gyfer gwaith ymchwil effeithlon, cynhyrchiol o'r Rhyngwrld yn y cyfnod uwchradd.

Mae webquests yn cynnwys cysylltiadau uniongyrchol i ymchwil ategol. Nid oes angen defnyddio peiriant chwilio. Mae rhai webquests ond yn cynnwys rhestr o gwestiynau. Mae'r cwestiynau wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â ffynonellau testun ac yn fodd o sbarduno darllenwyr amharod i ddarganfod drostynt eu hunain.

Mae eraill wedi'u dylunio i ategu gweithgaredd grŵp sy'n gweithio ar y cyd. Maent yn annog disgyblion i gymhwyso'r hyn y maent wedi'i ddarganfod, gan arwain at ddysgu mwy effeithiol. Maent yn cynnig set hunangynhwysol o dasgau dysgu gyda chanlyniad wedi'i ddiffinio, megis cofnodi dyddiadur efaciwî WWII neu ysgrifennu llawlyfr ysgol o gyfnod Victoria. <http://www.webquestuk.org.uk/>

Nid oes angen gwneud dysgwyr ysgolion cynradd yn agored i risgiau Rhynggrwyd heb ei gorlannu!

E-bost

Mae'r mwyafrif o ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yn defnyddio'r system bostio newydd ar y we i ysgolion. Mae'r wefan hon yn cyfyngu gallu'r disgyblion i anfon / derbyn e-bost o fewn y parth yn unig. Mae'r wefan yn cynnwys system hidlo am sbam, a dylid rhoi gwybod i Ddesg Gymorth TG os derbynnir nifer annerbyniol o sbam. Os derbynnir e-byst tramgwyddus oddi wrth ddefnyddwyr eraill, dylid rhoi gwybod yn ddiymdroi i'r pennaeth.

Ni ddylai disgyblion ddefnyddio cyfrifon unigol ar gyfer anfon e-byst allanol. Gellir sefydlu cyfeiriad e-bost 'dosbarth' neu 'grŵp' a'r athro/athrawes yn ei safoni. Mae nifer o ysgolion yn sicrhau diogelwch drwy drefnu cyfnewid e-byst fel prosiect dosbarth.

DS: Cydgysylltwyr TGCh: cadwch fanylion a chyfrinair eich cyfrif gweinyddwr mewn man diogel. Gwnewch yn siŵr bod rhywun arall yn gallu mynd i mewn i gyfrifon e-bost yr ysgol gyfan os ydych ar wyliau, yn absennol neu wedi gadael yr ysgol. Mae'n bwysig nad yw disgyblion yn cael gwybod beth yw'r cyfrineiriau hyn.

Addysgu e-Ddiogelwch

Mae'r Rhynggrwyd bellach yn rhan annatod o fywyd plant, doed a ddelo. Yn ffodus, mae modd i ddysgwyr gael budd o gyfathrebu ar-lein gyda'u cyfoedion, a hynny yn ddiogel i bob pwrpas.

Mae safle'r BBC Chat Guide <http://www.bbc.co.uk/chatguide> yn cynnwys amrywiaeth o becynnau addysgu wedi'u cynllunio'n ofalus ar gyfer CA2 a CA3. Mae gêmiau a chyngor yma ar gyfer plant a phobl ifainc, a llyfryn i rieni ar ChatGuide y gellir ei lawrlwytho.

Hefyd mae amrediad o ddeunyddiau ar gael gan sefydliadau megis Wisekids, ChildNet a CEOP.

E-ddiogelwch ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol

Cymerir yn ganiataol bod plant yn deall ac yn dilyn trefn "diogelwch". Rhaid i ddisgyblion ddeall bod rhaid iddynt ddilyn y rheolau a roddir iddynt. Mae angen i ddisgyblion ddysgu rheolau diogelwch mewn modd nad yw'n codi ofn arnynt ac sy'n rhoi hyder iddynt beth i'w wneud mewn amgylchiadau arbennig. Mae angen i ddisgyblion ddeall y bydd rhai rheolau yn newid ac yn datblygu wrth iddynt fynd yn hŷn.

Mae angen i ddisgyblion ddysgu sut i ddefnyddio strategaethau fydd yn eu helpu i osgoi rhai "risgiau" a bod angen iddynt gynllunio ymlaen llaw.

Mae rhai agweddau o'r uchod sy'n arbennig o heriol i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol a phlant a all yn ein barn ni fod yn agored i niwed yn y cyd-destun hwn o ddysgu. Bydd gan bob disgybl ei anghenion ei hun fydd yn codi nifer o gwestiynau wrth addysgu e-ddiogelwch, ond ymhlith rhai o'r anawsterau mwyaf cyffredin fydd y canlynol:

- Maent o bosibl yn dal i ddatblygu eu dealltwriaeth gymdeithasol o ddiogelwch ac o'r herwydd yn gallu dilyn strategaethau a ddefnyddir gyda phlant ifancach yn well
- Maent yn debygol o gael anhawster i gymhwyso'r un rheolau mewn gwahanol sefyllfaoedd
- Mae'r mwyafrif o egwyddorion diogelwch yn dibynnu ar allu'r plant i egluro'r hyn sydd wedi digwydd neu i ofyn am gymorth
- Bydd rhai plant o bosibl yn ei chael yn anodd cofio ac yn anodd dysgu drwy brofiad.

Doeth o beth i bob ysgol fyddai ystyried eu polisi e-ddiogelwch mewn perthynas ag addasiadau penodol fyddai angen eu gwneud o bosibl ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion. Hefyd byddai o gymorth petai Cydgysylltwyr AAA yn cydgysylltu'r cyngor rhwng arbenigwyr TGCh a staff ategol.

Gall hyn fod ar ffurf strategaethau sy'n canolbwyntio ar y plentyn y gellid eu defnyddio gyda phlentyn sydd ag anghenion ychwanegol ac a fyddai ar gael i bob aelod o staff sy'n defnyddio'r Rhyngwrwyd gyda'r plentyn hwnnw.

Fel arall, gallai dulliau'r ysgol gyfan gymryd strategaethau i ystyriaeth fyddai'n ategu'r anghenion, h.y. dewisiadau penodol o gymorth gweledol i atgoffa'r disgyblion o'r rheolau.

Addysgu e-ddiogelwch

Am wybodaeth a chynghor ar addysgu e-ddiogelwch i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol, cyfeirier os gwelwch yn dda at y ddogfen "e-Ddiogelwch ar gyfer Disgyblion sydd ag Anghenion Ychwanegol" ar y dudalen ar e-ddiogelwch ar Amdro.

Defnyddio technolegau newydd mewn addysg

Dylid archwilio technolegau newydd i weld yn union beth yw eu budd addysgol, a gwneud asesiad risg cyn y caniateir eu defnyddio yn yr ysgol. Mae ysgolion uwchradd (ac yn bendant eu disgyblion) yn arwain y ffordd o ran defnyddio amrywiaeth eang o dechnolegau newydd a chyfleoedd dysgu gan gynnwys:

- Ffônau symudol â phŵer cyfrifiadur y gellir eu cysylltu â'r Rhyngwrwyd, Bluetooth a chyswllt isgoch a chamera.
- Amgylcheddau dysgu newydd megis Moodle a llwyfannau dysgu eraill
- Sgiliau meddwl a gaiff eu herio gan gêmiau ac efelychiadau
- Llais a negeseua Rhyngwrwyd megis Skype a chyswllt IWB.
- Adrodd stori yn ddigidol sy'n golygu meddwl yn annibynnol a hunan-gymhelliant
- Podledu, darlledu a recordio gwersi
- Fideo digidol

Bydd rhai o'r technolegau hyn o bosibl yn diflannu. Bydd eraill yn newid ein byd. Yr hyn sy'n bwysig yw cyfuno gallu arbrofol ein pobl ifanc gyda doethineb athrawon i ddatblygu defnydd priodol, effeithiol a diogel mewn addysgu a dysgu.

Ymateb i ddigwyddiad sy'n peri pryder

Mae technolegau'r Rhyngwrwyd a chyfathrebu electronig yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ehangu eu profiadau dysgu a datblygu'u gallu i fod yn greadigol yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Serch hynny, mae'n bwysig cofio yn ogystal y peryglon sy'n gysylltiedig â'r modd y gellir defnyddio'r technolegau hyn.

Dylai Polisi e-Ddiogelwch gydnabod a cheisio datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc wrth gyfathrebu a defnyddio'r technolegau hyn yn briodol, tra'n cadw'n ddiogel, a dangos parch tuag at eraill.

Mae'r risgiau hyn i e-ddiogelwch yn codi oherwydd bod pobl yn gweithredu'n amhriodol neu hyd yn oed yn anghyfreithlon. Rhaid delio ag unrhyw fater a all godi ar lefel bersonol. Athrawon yw llinell flaen yr amddiffyn; hwy sy'n arsylwi ymddygiad y disgyblion ac mae hynny'n hanfodol o ran canfod perygl i ddisgyblion ac o ran datblygu ymddiriedaeth fel bod materion yn derbyn sylw. Bydd digwyddiadau yn amrywio o'r drygioni neu weithred ddifeddwl i weithred anghyfreithlon a gynlluniwyd yn ofalus.

Bydd yr adran hon yn gymorth i'r staff benderfynu pa gamau i'w cymryd a pha bryd i roi gwybod am ddigwyddiad sy'n peri pryder i'r person sydd â chyfrifoldeb am Ddiogelu Plant neu e-Ddiogelwch o fewn yr ysgol. Yn dilyn ymgynghori â'r pennaeth gellir cyfeirio materion wedyn at Swyddog yr Awdurdod ar Ddiogelu Plant neu at yr Heddlu os bernir bod angen hynny.

Beth mae cyfathrebu electronig yn ei gynnwys?

- **Cyfringau cydweithredu ar y Rhyngrwyd:** safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a gwe-logiau (blogiau)
- **Ymchwil ar y Rhyngrwyd:** gwefannau, peiriannau chwilio a phorwyr gwefan
- **Ffonau symudol a chynorthwyr digidol personol (PDAs)**
- **Cyfathrebu ar y Rhyngrwyd:** e-bost a negeseua sydyn
- **Gwe-gamerâu a fideogynadledda**
- **Consolau gêmiau diwyfr**

Cyfrifoldebau'r ysgol

Gan fod e-Ddiogelwch yn gysyniad gymharol newydd ac yn cwmpasu cryn dipyn mwy na defnyddio'r rhyngrwyd yn unig, byddai crynodeb o gyfrifoldebau'r ysgol o ran e-ddiogelwch yn ddefnyddiol. Dylai'r rhestr hon fod o gymorth i ddatblygu dull effeithiol a gyd-drefnwyd o reoli materion e-Ddiogelwch.

Dylid ystyried y canlynol:

- **E** Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn annog ysgolion i benodi aelod o staff fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am e-Ddiogelwch. Gall hwn fod yn aelod o staff sydd eisoes yn gyfrifol am Ddiogelu Plant neu aelod o'r tîm rheoli, y cydgysylltydd TGCh neu'r cydgysylltydd ABCh neu athro pwnc. Gall y Gwasanaeth Gwella Ysgolion, Ymgynghorwyr TG Ysgolion neu'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant roi cymorth i'r aelod dan sylw.
- Dylai'r cydgysylltydd e-Ddiogelwch gynnal y Polisi e-Ddiogelwch, rheoli cymorth e-Ddiogelwch a gwybod am yr ymgyrchoedd diweddaraf yn lleol ac yn genedlaethol i ennyn ymwybyddiaeth o e-ddiogelwch.
- Dylai ysgolion adolygu eu polisi yn rheolaidd a diwygio eu polisi yn flynyddol i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn ystyried y technolegau diweddaraf.
- Dylai ysgolion archwilio eu systemau hidlo yn rheolaidd i sicrhau bod gwefannau amhriodol yn cael eu heithrio. Yn yr ysgolion cynradd gwneir hyn drwy gydweithredu â'r Ymgynghorydd TG ysgolion cynradd a Gwasanaethau TG Sir Gaerfyrddin.
- I sicrhau bod disgyblion a staff yn cadw at y polisi, bydd angen ymchwilio i unrhyw achos o gamddefnyddio posibl.
- Dylai ysgolion sicrhau bod e-Ddiogelwch yn rhan annatod o'r cwricwlwm a bod pob disgybl yn gwybod yn iawn sut mae defnyddio'r technolegau yn ddiogel ac yn

gyfrifol. Mae angen i ddisgyblion wybod sut i reoli'r risgiau ar-lein a'u cadw i'r lleiafswm posibl, a sut i roi gwybod am unrhyw broblem sy'n codi.

- Rhaid i bob aelod o staff ddarllen a llofnodi'r Polisi Defnydd Derbyniol ar gyfer Staff / Polisi Corfforaethol ar gyfer staff.
- Dylai rhieni lofnodi a dychwelyd ffurflen ganiatâd y Rheolau e-Ddiogelwch.
- Dylai'r Polisi e-Ddiogelwch fod ar gael i bob aelod o staff, llywodraethwyr, rhieni ac ymwelwyr.

Gweithredu a Chydymffurfio

Ni all unrhyw bolisi ddiogelu disgyblion os nad yw'r polisi hwnnw'n cael ei weithredu'n effeithiol. Mae'n hanfodol bod staff yn wylidwrus bob amser wrth gynllunio a goruchwyllo profiadau TGCh priodol ac addysgol. Gall y syniadau a'r gwiriadau canlynol fod yn ddefnyddiol:

- Mae'r archwiliad cyflym sydd wedi'i gynnwys yn y Polisiâu e-Ddiogelwch Craidd yn lle da i ddechrau wrth weld pa mor gyflawn yw polisi e-ddiogelwch yr ysgol.
- Sut mae'r disgyblion yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau? Mae arddangos posteri mewn ystafelloedd lle mae cyfrifiaduron yn un ffordd ddefnyddiol, ac mae sawl ysgol yn cynnwys canllawiau mewn deunydd cyswllt rhwng yr Ysgol a'r Cartref.
- A yw'r staff, disgyblion a'r rhieni yn gwybod sut i roi gwybod am ddigwyddiad sy'n peri pryder ynghylch y defnydd a wneir o'r Rhyngrwyd?
- Lle bo'r system hidlo yn cael ei rheoli yn lleol, a yw uwch reolwr yn cymeradwyo'r ffurfwedd hidlo sydd gan yr ysgol ac yn goruchwyllo'r staff sy'n rheoli'r system hidlo?